Archwilio Cymru
Audit Wales

# Atal Tanau yn y Dyfodol

## Gwaith atal yn Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru

Gorffennaf 2025

# Amdanom ni

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi hwn o dan adran 17 (2) (d) Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Gall hefyd oleuo adroddiad dan adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.


## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2025

Gallwch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o'r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os byddwch yn ei ailddefnyddio, rhaid i'ch ailddefnydd fod yn gywir a rhaid iddo beidio â bod mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle'r ydym wedi enwi unrhyw ddeunydd y mae'r hawlfraint ynddo'n eiddo i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd y deiliad hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.


## Os oes arnoch angen unrhyw help gyda'r ddogfen hon

Os hoffech gael rhagor o wybodaeth, neu os oes arnoch angen unrhyw un neu rai o'n cyhoeddiadau mewn fformat neu iaith arall:

- ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- anfonwch neges e-bost atom yn post@archwilio.cymru

Gallwch ddefnyddio Cymraeg neu Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb ichi yn yr iaith a ddefnyddiwch.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

Mae Archwilio Cymru'n dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Sefydliadau Archwilio Goruchaf (INTOSAI).

# Cynnwys

Cipolwg o’r archwiliad 4

Ffeithiau a ffigyrau allweddol 6

Ein canfyddiadau 7

Argymhellion 14

1 Ynglŷn â’n gwaith 16

# Cipolwg o'r archwiliad

## Yr hyn y gwnaethom fwrw golwg arno

1 Fe wnaethom fwrw golwg ar y dull a ddefnyddir gan Awdurdod Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (yr Awdurdod) i dargedu ei waith atal tân. Fe wnaethom ganolbwyntio ar dargedu'r bobl fwyaf agored i niwed i helpu i leihau tanau a lleihau anaf difrifol neu farwolaeth.

2 Mae'r Awdurdod yn gwneud gwaith atal gan ddefnyddio nifer o ddulliau. Fe ganolbwyntiom ni ein gwaith ar ystyried sut y mae'r Awdurdod yn gweithio gydag aelwydydd unigol. Ni wnaethom ganolbwyntio ar waith atal arall, megis addysg ieuenctid neu leihau tanau gwyllt. Ni wnaethom ystyried gwaith atal i leihau gweithgarwch achub yr Awdurdod, megis gweithgarwch diogelwch ar y ffyrdd, ychwaith.

## Pam fod hyn yn bwysig

3 Mae atal yn hollbwysig gan bod ganddo'r potensial i achub bywydau ac atal anafiadau difrifol rhag digwydd. Mae hefyd yn cynnig budd o ran osgoi difrod i gartrefi pobl a'r tarfu a achosir o ganlyniad i golli eiddo. Gall hyn ddwyn manteision i unigolion, teuluoedd, a chymunedau ehangach.

4 Gall targedu ymdrechion at y bobl fwyaf agored i niwed fod yn arwydd bod yr Awdurdod yn cyflawni gwerth da am arian hefyd. Y rheswm dros hyn yw bod adnoddau cyfyngedig yr Awdurdod yn cael eu canolbwyntio ar y risgiau mwyaf yn y gymuned.

5 Mae bod yn agored i niwed yn gallu bod yn gysylltiedig ag amryw fathau o anfantais hefyd. Mae targedu ymdrechion at bobl agored i niwed yn helpu i ddangos bod yr Awdurdod yn gweithredu yn unol â dyletswyddau cyfreithiol a osodir arno ar gyfer cydraddoldeb. Mae atal hefyd yn un o'r pum ffordd o weithio i helpu'r Awdurdod i ddangos ei fod yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

## Yr hyn yr ydym wedi'i ganfod

6 Mae gan yr Awdurdod ddull sylfaenol cadarn o dargedu gwaith atal tân. Fodd bynnag, gallai adeiladu ymhellach ar hyn, i sicrhau ei fod wastad yn cyfeirio ei adnoddau atal at y bobl â'r lefel risg uchaf.

## Yr hyn yr ydym yn ei argymell

7 Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i ategu dull yr Awdurdod. Rydym yn argymell bod yr Awdurdod yn asesu ble y gallai fod bylchau'n bodoli yn ei ddull cyfredol o adnabod pobl â'r lefel risg uchaf a'i fod yn cynllunio i ymdrin â hwy. Rydym hefyd yn argymell bod yr Awdurdod yn cryfhau ei ddealltwriaeth am y gwerth a gyflawnir gan ei weithgareddau atal i helpu i dargedu camau gweithredu ymhellach i gael yr effaith fwyaf.

# Ffeithiau a ffigyrau allweddol

- 32% – y gostyngiad yn y tanau mewn anheddau rhwng 2009-10 a 2023-24

- 44% – y gostyngiad yn y rhai a fu farw ac a anafwyd mewn tanau rhwng 2009-10 a 2023-24

- Naw – nifer y ffactorau risg a ddefnyddir gan yr Awdurdod i adnabod y bobl â'r lefel risg uchaf

- Dau neu fwy – nifer y ffactorau risg y mae eu hangen i berson fod â'r lefel risg uchaf

- Dros 300 – nifer y partneriaid sy'n atgyfeirio pobl â'r lefel risg uchaf at yr Awdurdod ar gyfer ymweliadau diogelwch yn y cartref

# Ein canfyddiadau

## Mae gan yr Awdurdod ddull rhesymol o adnabod pobl sy’n wynebu risg, ond ceir rhai bylchau o hyd

8 I adnabod pobl sy’n wynebu risg, mae angen i Awdurdodau Tân ac Achub (ATAau) ddeall dwy elfen. Yn gyntaf, y ffactorau sy’n debygol o olygu bod pobl yn wynebu risg o dân ar lefel uwch. Yn ail, sut i adnabod yr unigolion sy’n profi’r ffactorau hyn. Mae deall y ddwy elfen yn allweddol i allu ATAau i dargedu gweithgareddau, megis ymweliadau diogelwch yn y cartref, at y rhai y mae arnynt eu hangen fwyaf.

9 Mae sail gadarn i ddull yr Awdurdod o adnabod ffactorau risg. Mae’r Awdurdod yn gwybod beth yw’r ffactorau sy’n gwneud pobl yn fwy tebygol o brofi tanau o ganllawiau a gyhoeddwyd gan Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân. Mae’n cyfuno hyn â data o danau sydd wedi digwydd yn y gorffennol. Mae hyn yn golygu bod yr Awdurdod yn defnyddio mewnwelediadau o danau gwirioneddol yn ei ardal ac yn ehangach yng Nghymru. Mae hon yn sail eglur i’w ddull.

10 Mae’r Awdurdod yn dibynnu’n fawr ar atgyfeiriadau gan eraill i adnabod pobl sy’n wynebu risg o dân. Mae cryfderau a gwendidau i hyn. Prif gryfder atgyfeiriadau yw bod yr Awdurdod yn gallu manteisio ar wybodaeth arbenigol partneriaid am y gymuned. I ddefnyddio’r cryfder hwn, mae’r Awdurdod wedi meithrin rhwydwaith o fwy na 300 o asiantaethau partner ac mae’n gweithio gyda hwy i gynyddu’r atgyfeiriadau y mae’n eu cael.

11 Fodd bynnag, mae gwendidau i atgyfeiriadau hefyd. Mae ar yr Awdurdod angen cynnwys y partneriaid iawn i osgoi cyfyngu ar ei weithgarwch. Os nad yw partneriaid yn gwneud atgyfeiriad, gallai’r Awdurdod golli person â lefel risg uwch. Mae pobl sy’n byw mewn sefyllfaoedd ynysig hefyd yn llai tebygol o fod yn hysbys i bartneriaid neu i aelodau’r gymuned, gan olygu eu bod yn wynebu mwy o risg. Mae’r Awdurdod wedi cymryd camau i geisio mynd i’r afael â’r gwendidau hyn, megis ei fenter ‘bod yn gymydog da’. Mae’r rhain yn cynnig sylfaen i’r Awdurdod adeiladu arni yn y dyfodol i leihau’r potensial ar gyfer colli pobl.

12 Nid oes proses gan yr Awdurdod i wirio ei atgyfeiriadau yn erbyn setiau data o bobl â lefelau risg uwch. Gallai defnyddio data cymunedol leihau'r siawns o golli pobl. Mae ATAau eraill wedi defnyddio setiau data, megis data iechyd, i ddeall pwy sy'n byw mewn cartref a'u ffactorau risg, megis oedran. Ni all data liniaru'r holl wendidau ond gall fod yn ategiad defnyddiol. Mae'r Awdurdod yn cydnabod gwerth data ac mae'n ceisio treialu data yn ei ddull.

13 Mae'r Awdurdod wedi gweithio gyda phartneriaid i helpu i wneud ei ddull yn fwy cynhwysol. Er enghraifft, mae wedi gweithio gyda phartneriaid i ddarparu ymweliadau diogelwch yn y cartref lle mae partneriaid eisoes wedi meithrin ymddiriedaeth gyda chymunedau y mae'n anodd ymgysylltu â hwy. Mae gwaith gan yr Awdurdod i gynnwys y gymuned yn helpu i sicrhau dealltwriaeth fwy cyflawn am yr ardal a'i risgiau. Gall cynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig helpu i ddod o hyd i ffactorau risg sy'n anhysbys ar hyn o bryd ac sy'n achosi mwy o risg i bobl. Gall cynnwys pobl helpu'r Awdurdod i sicrhau bod ei ymweliadau diogelwch yn y cartref yn gynhwysol o ran y modd y cânt eu darparu hefyd. Mae'r Awdurdod yn ymwybodol o risgiau newydd mewn cymunedau trwy ddata cenedlaethol a rhannu gwybodaeth ledled y DU.

## Mae'r Awdurdod yn ceisio blaenoriaethu pobl â lefel risg uwch, ond efallai nad yw ei bolisïau cyfredol wastad yn cyflawni hyn

14 Mae gan yr Awdurdod ddull gweddol eglur o flaenoriaethu ei waith atal. Mae'n categoreiddio aelwydydd yn seiliedig ar lefel eu risg. Mae aelwydydd â lefel risg uwch yn gymwys i gael cymorth cyflymach, mwy arbenigol. Gall blaenoriaethu effeithiol fod â rôl allweddol o ran sicrhau bod pobl â lefel risg uwch yn cael y cymorth y mae ei angen arnynt cyn y ceir digwyddiadau.

15 Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae'n llai amlwg sut y mae polisïau'r Awdurdod yn dangos ei ddull seiliedig-ar-flaenoriaethau. Er enghraifft, nid oes gan yr Awdurdod bolisi i ailymweld â chartrefi ar ôl ymweliad diogelwch. Fodd bynnag, mae llawer o'r ffactorau sy'n gallu golygu bod gan unigolion lefel risg uwch, megis cyflyrau iechyd ac effeithiau oedran, yn debygol o waethygu dros amser. Gall hyn olygu bod y budd sy'n deillio o ymweliad yn cael ei golli heb ei ailadrodd o fewn cyfnod addas, megis dwy flynedd. Lle mae pobl wedi symud neu fod partner wedi anfon atgyfeiriad, gall yr Awdurdod ailymweld â chartrefi sy'n lleihau'r risg yma. Fodd bynnag, gall ailadrodd ymweliadau â chartrefi eraill lle ceir lefel risg uwch neu newidiadau eraill ddangos yn fwy eglur sut i dargedu adnoddau i leihau mwy o risg.

16 Byddai dull seiliedig-ar-flaenoriaethau'r Awdurdod yn cael ei ddangos yn fwy eglur gan ei ymateb i geisiadau am ymweliadau diogelwch yn y cartref hefyd. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn cynnig ymweliad i unrhyw un sy'n gofyn am un ac sy'n meddwl nad ydynt yn gallu gosod eu larwm mwg eu hunain, ond gall hyn olygu yr ymwelir â chartrefi heb unrhyw ffactorau risg.[1] Ymwelir â phob cartref a atgyfeirir gan bartneriaid. Mae'r Awdurdod yn newid ei ddull yn ôl ffactorau risg, megis bod swyddogion mwy arbenigol yn ymweld â chartrefi â lefel risg uwch. Fodd bynnag, mae'n dal yn wir bod swyddogion wedi ymateb i gartrefi heb ryw lawer o risg o dân. Gall hyn olygu bod yr Awdurdod yn defnyddio ei adnoddau i leihau risg gymunedol mewn ffordd gymharol fach.

17 Nid yw'r Awdurdod wedi dangos yn glir ei fod wedi meddwl am y cyfaddawdau yn ei ddull blaenoriaethu. Wrth ddatblygu ei ddull, mae'r Awdurdod wedi gorfod penderfynu:

- Ar ba ffactorau risg ddylai ganolbwyntio?
- Pa ffactorau risg ddylai eu diystyru?
- Sut i rannu cartrefi rhwng categorïau risg isel, ganolig ac uwch?
- Pwy sy'n gymwys i gael pa offer?

[1] Lle mae rhywun yn gofyn am ymweliad ond yn dweud eu bod yn gallu gosod eu larymau eu hunain, bydd yr Awdurdod yn anfon pecyn diogelwch yn y cartref atynt yn lle ymweld â hwy.

18 Mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn hyderus bod ei ddull yn gyson yn cyfeirio adnoddau at y rhai sydd fwyaf mewn angen. Ar yr un pryd, rhaid i'r Awdurdod daro cydbwysedd rhwng hyn a pheidio gadael cartrefi eraill yn agored i lefel o risg sy'n annerbyniol yn ei dyb ef. Rydym yn cydnabod bod y rhain yn benderfyniadau anodd i'r Awdurdod a swyddogion unigol eu gwneud.

## Gallai'r Awdurdod fynd ati ymhellach i gryfhau'r modd y mae'n rhoi ei ddull ar waith

19 Mae hyfforddiant a sicrhau ansawdd yn bwysig i wneud yn siŵr bod ymweliadau diogelwch yn y cartref yn cadw pobl yn ddiogel. Mae gan yr Awdurdod brosesau hyfforddiant. Fodd bynnag, mae ymweliadau diogelwch yn y cartref gan yr Awdurdod yr arsylwyd arnynt yn canolbwyntio ar ddechreuwyr newydd yn unig. Gall hyn olygu y gall materion ansawdd ddatblygu gyda swyddogion nad ydynt wedi cael hyfforddiant yn ddiweddar. Mae'r Awdurdod yn amcanu at ffonio 10% o'r holl gartrefi yr ymwelwyd â hwy yn y mis blaenorol i wirio ansawdd yr ymweliadau. Mae sicrhau ymweliadau diogelwch yn y cartref o ansawdd yn helpu'r Awdurdod i wneud yn siŵr bod pob cyswllt â phobl â lefel risg uwch yn cyfrif.

20 Mae'r Awdurdod yn targedu'r rhan fwyaf o ymweliadau diogelwch yn y cartref at gartrefi â lefel risg uwch ond gallai herio ei hun ymhellach. Yn 2024-25, roedd data'r Awdurdod yn dangos bod 56% o'r cartrefi yr ymwelwyd â hwy wedi cael eu hasesu fel rhai â risg uwch.[2] Er bod hyn yn fwyafrif, i ddangos ei fod yn targedu ei adnoddau cyfyngedig yn llawn at y cartrefi lle gall gael yr effaith fwyaf, gallai'r Awdurdod ddangos hyn yn fwy eglur trwy gynyddu'r gyfran hon.

[2] Mae'r asesiad o risg isel, ganolig ac uwch yn cyd-fynd â diffiniad ac asesiad gan yr Awdurdod. O ganlyniad, ni ddylid cymharu'r data hwn â data gan ATAau eraill a all fod yn defnyddio diffiniadau gwahanol.

## Gallai dealltwriaeth gryfach am werth am arian helpu’r Awdurdod i wneud dewisiadau gwario

21 Mae heriau o ran cyllid yn y sector cyhoeddus wedi golygu penderfyniadau anodd ar draws y sector. Mae offer diogelwch yn y cartref wedi cael ei gyllido gan grantiau a ddyfarnwyd i’r tri ATA yng Nghymru. Yn 2023-24, cafodd yr Awdurdod £330,000 i brynu offer. Caiff gweithgarwch atal arall ei gyllido gan gyllideb yr Awdurdod, a gyllidir gan ei ardoll ar gynghorau.

22 Dros y blynyddoedd diwethaf, mae’r Awdurdod wedi wynebu pwysau newydd mewn costau atal. Er enghraifft, fe arweiniodd chwyddiant at gostau uwch wrth brynu peth offer diogelwch tân yn y cartref. O ganlyniad, rhoddodd yr Awdurdod y gorau i ddarparu larymau carbon monocsid gan nad oedd modd dod o hyd i gyllid ychwanegol. Daw’r holl gyllid grant gyda risg y gallai ddod i ben neu ostwng mewn gwerth. I liniaru’r risg hon, mae angen i’r Awdurdod fod yn glir pa weithgarwch y mae’n hollbwysig ei fod yn ei gyllido â’i adnoddau ei hun.

23 Wrth wneud penderfyniadau anodd yn y cyd-destun hwn, mae angen i’r Awdurdod asesu gwerth ei weithgarwch. Gallai wneud hyn, er enghraifft, trwy adnabod y risgiau ychwanegol a wynebir gan bobl â lefel risg uwch heb ymweliad diogelwch yn y cartref. Byddai hyn yn helpu’r Awdurdod i ddeall y gost o’i chymharu â’r budd sy’n deillio o unrhyw arbedion arfaethedig. Byddai hefyd yn goleuo dewisiadau gan yr Awdurdod ynglŷn â chyfanswm cyfran ei adnoddau y mae’n ei neilltuo i waith atal. Gallai hyn gynnwys ystyried gwahanol ffyrdd o atal tanau o’i gymharu â’i ddull cyfredol. Gan nad oes gan yr Awdurdod ddull i wneud hyn eto, ni all ddangos yn llawn sut y mae’n ystyried gwerth am arian wrth ddyrannu adnoddau ar gyfer gwaith atal.

## Mae'r niferoedd a anafir mewn tanau wedi gostwng ond mae angen i'r Awdurdod fod yn glir ynghylch y gweithgarwch atal sy'n gweithio

24 Mae dysgu o'r hyn sy'n gweithio'n allweddol i helpu'r Awdurdod i wella ei ddull atal. Mae gan yr Awdurdod broses i ddysgu o danau difrifol. Mae hyn wedi arwain at newidiadau mewn prosesau wrth i swyddogion ddysgu o brofiad.[3] Roedd hi'n llai amlwg sut y mae'r Awdurdod yn dysgu o ddigwyddiadau llai difrifol, fel digwyddiadau trwch blewyn. Rydym yn cydnabod anhawster darparu adnoddau ar gyfer hyn yn erbyn pwysau eraill ar gyllid. Fodd bynnag, gall yr holl ddigwyddiadau gynnig mewnwelediad i feysydd ar gyfer gwella o ran atal digwyddiadau ar y cyfan.

25 Gallai'r Awdurdod hefyd gynyddu'r cyfleoedd ar gyfer dysgu trwy'r data y mae'n ei gasglu. Mae'r Awdurdod yn casglu data cyfyngedig ar yr unigolion hynny y mae'n ymweld â hwy ar gyfer gwiriadau diogelwch. Mae hyn yn golygu nad yw'n bosibl edrych ar ddata ar ymweliadau diogelwch yn y cartref neu ddigwyddiadau yn ôl nodweddion gwarchodedig neu fetrigau eraill. Mae hyn yn ei gwneud yn anos i'r Awdurdod fonitro risgiau sy'n gysylltiedig â rhai cymunedau. Mae hefyd yn ei gwneud yn anos iddo ddangos ei fod yn gweithredu yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus a'r Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol.

26 Mae'r Awdurdod yn pennu targedau amser tybiannol ac yn cofnodi amseroedd ar gyfer cwblhau gwiriadau diogelwch yn y cartref. Mae hyn yn golygu bod gan yr Awdurdod dystiolaeth i ddynodi faint o amser y mae'n ei gymryd i achosion symud ymlaen a chyflawni canlyniad. Gall hyn fod yn ddefnyddiol o ran monitro a chynllunio gweithgarwch. Gall targedau amser atal swyddogion rhag treulio mwy o amser mewn achosion mwy cymhleth hefyd. Fodd bynnag, dywedir wrth swyddogion am gymryd yr amser y mae ei angen ar gyfer achosion cymhleth.

---

[3] Fe wnaethom adolygu'r broses hon mewn perthynas â gweithgarwch atal. Ni wnaethon ei hadolygu'n fanwl, felly nid ydym yn dod i unrhyw gasgliad ynglŷn â chyflawnder nac ansawdd y broses.

27 Mae gweithgarwch dysgu'r Awdurdod yn canolbwyntio ar danau sydd wedi digwydd yn hytrach na'r rhai y mae wedi'u hatal. Mae mesur effaith atal pan na chafwyd digwyddiad yn eithriadol o anodd, yn amlwg. O ganlyniad, nid oes gan yr Awdurdod ddealltwriaeth fanwl am sut y mae ei weithgarwch yn helpu i atal tanau rhag digwydd. Mae Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion tân wedi cwblhau asesiad o fanteision gwaith atal ledled Lloegr.[4] Amcangyfrifir bod gwiriadau diogelwch yn y cartref wedi dwyn adenillion gros ar fuddsoddiad o 267% am bob punt a wariwyd rhwng 2016 a 2019. Nid oes dadansoddiad cymharol ar lefel Cymru nac Awdurdodau wedi cael ei gwblhau.

28 Nid yw craffu gan gynghorwyr yr Awdurdod wedi bod o gymorth i ddysgu. Yn gadarnhaol, mae'r Awdurdod yn darparu hyfforddiant i gynghorwyr newydd i'w helpu i ddeall gweithgarwch diogelwch cymunedol. Fodd bynnag, nid yw cynghorwyr yn craffu'n glir ac yn fynych ar y gweithgarwch atal a gyflawnir gan yr Awdurdod. Gall craffu gan bobl nad ydynt yn swyddogion helpu i ddarparu golwg wahanol ar weithgarwch a helpu i adnabod gwelliannau i roi cymorth i gyflawni gwerth am arian.

[4] Cyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân, Economic and Social Value of the UKFRS, Gorffennaf 2023

# Argymhellion

**A1** Canfuom risgiau o ran sut y mae'r Awdurdod yn adnabod pobl sy'n wynebu risg o dân ar lefel uwch. Rydym yn argymell y dylai'r Awdurdod asesu ble y gall fod ganddo fylchau yn ei ddull ac y dylai ymdrin â'r bylchau hyn i sicrhau bod ei gamau gweithredu'n targedu pobl â'r lefel risg uchaf. Wrth wneud hyn, dylai'r Awdurdod:

**1.1** chwilio'n rheolaidd am risgiau y tu hwnt i ddata digwyddiadau blaenorol.

**1.2** treialu dulliau i adnabod pobl sy'n wynebu risg o dân ar lefel uwch ac sydd mewn sefyllfaoedd ynysig a mabwysiadu unrhyw ddulliau effeithiol. Dylai hyn gynnwys defnyddio data.

**1.3** ychwanegu camau sicrhau ansawdd i leihau'r risg na fydd partneriaid yn atgyfeirio pobl sy'n wynebu risg o dân ar lefel uwch.

**1.4** cymharu'r partneriaid y mae'n gweithio gyda hwy ag ATAau eraill i sicrhau cyflawnder ei ddull.

**A2** Canfuom fod angen i’r Awdurdod gryfhau ei ddealltwriaeth am y gwerth a ychwanegir gan ei weithgarwch atal. Y rheswm dros hyn yw er mwyn rhoi cymorth yn fwy eglur i dargedu adnoddau i ddangos y gwerth am arian a gyflawnir. I wneud hyn, dylai’r Awdurdod:

**2.1** datblygu ffyrdd o asesu cyfraniad gweithgarwch atal o ran lleihau tanau, marwolaethau mewn tanau, ac anafiadau difrifol – yn enwedig i’r rhai sy’n wynebu risg o dân ar lefel uwch.

**2.2** datblygu dull strwythuredig o asesu costau, manteision a risgiau ei ddull a dewisiadau eraill. Dylai hyn adlewyrchu parodrwydd yr Awdurdod i dderbyn risg a’i ddyletswyddau cydraddoldeb.

**2.3** defnyddio ei ddull strwythuredig i adolygu ei ddiffiniadau o achosion risg isel, canolig ac uwch a’r adnoddau a ddyrennir.

**2.4** cydweithio gydag ATAau eraill Cymru i sefydlu diffiniadau cyffredin i’w gwneud yn bosibl cymharu a dysgu rhwng awdurdodau. Dylai hyn ystyried barn Llywodraeth Cymru hefyd.

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Fe wnaethom fwrw golwg ar y dull a ddefnyddir gan yr Awdurdod i dargedu ei waith atal tân. Fe ganolbwyntiom ni ar dargedu'r bobl fwyaf agored i niwed i helpu i leihau tanau a lleihau anaf difrifol neu farwolaeth. Fe ganolbwyntiom ni ein gwaith ar ystyried sut y mae'r Awdurdod yn gweithio gydag aelwydydd unigol.

Ni wnaethom ganolbwyntio ar waith atal arall, megis addysg ieuenctid neu leihau tanau gwyllt. Ni wnaethom fwrw golwg ar waith atal i leihau gweithgarwch achub yr Awdurdod, megis gweithgarwch diogelwch ar y ffyrdd, ychwaith.

Fe gwblhaom ni ein gwaith maes rhwng mis Ionawr a mis Mai 2025.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

I ddeall dull yr Awdurdod, fe wnaethom fwrw golwg ar:

- eglurder polisi a dull yr Awdurdod;
- y partneriaid y mae'r Awdurdod yn gweithio gyda hwy i atal tanau;
- yr adnoddau a ddefnyddir gan yr Awdurdod i atal tanau; a
- gwerthusiad yr Awdurdod o'i weithgarwch.

### Meini Prawf

Cafodd yr hyn yr oeddem yn chwilio amdano ei oleuo gan ystod o ffynonellau. Roedd hyn yn cynnwys y Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub a chanllawiau a gyhoeddwyd gan Gyngor Cenedlaethol y Prif Swyddogion Tân. Fe wnaethom hefyd ddefnyddio ein gwybodaeth am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i ddeall sut yr oedd yr Awdurdod yn dangos ei fod yn gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

# Dulliau

Roedd ein dulliau'n cynnwys:

- Dadansoddi data – fe wnaethom ddadansoddi data a ddarparwyd gan yr Awdurdod ac a oedd ar gael gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â gwaith atal.
- Adolygu dogfennau – fe ddarllenom ni ddogfennau a ddarparwyd gan yr Awdurdod mewn ymateb i'n cwestiwn archwilio. Roedd hyn yn cynnwys cynlluniau a dogfennau grantiau ar gyfer pob un o'r tri ATA yng Nghymru, yn ogystal â chanllawiau cenedlaethol.
- Cyfweliadau – fe gyfwelom ni â phum swyddog o'r Awdurdod a oedd yn rhan o gyflawni gweithgarwch atal.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Archwilio ac adrodd ar gyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff eraill mewn llywodraeth leol, yw rôl yr Archwilydd Cyffredinol. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd ar ddefnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn gwneud ei waith gyda chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n gorff a sefydlwyd i gefnogi a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol a monitro ei waith.

Archwilio Cymru yw'r term ymbarél a ddefnyddir ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân a chanddynt y rolau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru
Audit Wales

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.